

25 Tachwedd 2020

Annwyl Aelod,

## **Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Staff LIGC - Swydd Wag**

O fis Mawrth 2021 bydd cyfle i un aelod wedi ymddeol o Gynllun Pensiwn LIGC i fod yn Ymddiriedolwr Enwebwyd gan Aelodau (YEA) ar Fwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Mae "aelod wedi ymddeol" yn aelod sydd ar hyn o bryd yn derbyn pensiwn o'r Cynllun.

Rwy'n atodi ffurflen yn eich gwahodd i enwebu'ch hun i fod yn YEA. Ar hyn o bryd, mae saith o Ymddiriedolwyr gan y Cynllun - mae dau ohonynt yn YEA sydd yn cynrychioli'r staff ac mae un YEA yn cynrychioli'r aelodau sy'n bensiynwyr. Enwebir pedwar ymddiriedolwr gan Fwrdd LIGC.

### **Rôl YEA**

Cyn penderfynu a ydych am enwebu'ch hun yn YEA dylech fod yn ymwybodol o rôl Ymddiriedolwr. Cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, y dylai'r holl Ymddiriedolwyr eu mynychu, yn rheolaidd (tri neu bedwar y flwyddyn). Mae ymddiriedolwyr yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Cynllun ac yn adolygu perfformiad a pholisi buddsoddi. Nid ydynt yn gosod lefel y buddion a ddarperir o dan y Cynllun. Nid yw YEA yn cynrychioli unrhyw grŵp penodol o aelodau uwchlaw eraill.

Darperir hyfforddiant a chefnogaeth gan gynghorwyr proffesiynol i'r holl Ymddiriedolwyr. Efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn edrych ar fodiwl cyntaf rhaglen e-ddysgu'r Rheoleidiwr Pensiwn (<https://trusteetoolkit.thepensionsregulator.gov.uk/>) sy'n ymdrin â chyfraith ymddiriedolaeth ac yn rhoi syniad o sut beth yw bod yn ymddiriedolwr.

### **Tymor penodi a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y swydd wag hon**

Penodir YEA am dymor o bedair blynedd; gellir eu hail-benodi am ail dymor, ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol, os ydynt yn dewis i barhau fel YEA.

Os bydd YEA yn ymddiswyddo neu'n cael ei symud o'i swydd yn ystod ei dymor, bydd y swydd wag yn cael ei llenwi trwy ail-redeg y broses enwebu a dethol.

I fod yn gymwys i sefyll fel YEA rhaid i chi fod yn aelod wedi ymddeol [a chael cefnogaeth ysgrifenedig aelod wedi ymddeol arall o'r Cynllun.]

Os ydych chi am enwebu'ch hun i fod yn YEA, cwblhewch y ffurflen enwebu atodol a'i hanfon at David Michael, Ysgrifennydd y Cynllun, erbyn diwedd busnes ar 24 Rhagfyr 2020 ([david.michael@llyfrgell.cymru](mailto:david.michael@llyfrgell.cymru)). Os na dderbyniwn eich ffurflen enwebu erbyn yr amser hwn, ni chewch eich cynnig i'ch dewis. Gofynnir i chi gwblhau'r ffurflen cefnogwr, er bod hyn yn wirfoddol.

## **Y broses ddethol**

Os yw un enwebiad yn dod i law, bydd yr aelod a enwebir yn cael eu hystyried gan Banel Dethol a sefydlir gan yr Ymddiriedolwyr. Lle mae mwy nag un enwebiad, bydd proses cyfweiliad dethol yn cael ei drefnu lle bydd yr ymddiriedolwyr yn dewis yr ymgeisydd gorau ar sail profiad, sgiliau a gwybodaeth.

### **Ffioedd**

Ni thelir rôl Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan Aelodau ond ad-delir chi am unrhyw gostau teithio a threuliau eraill wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Ymddiriedolwr.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl y broses enwebu yn eich hysbysu am y canlyniad, ac os cynhelir proses ddethol.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich enwebiadau erbyn diwedd busnes ar **24 Rhagfyr 2020**.

Yn gywir

David Michael  
Ysgrifennydd  
Cynllun Pensiwn Staff LIGC

# Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Ymddiriedolwr a enwebwyd gan aelodau (YEA)

### Ffurflen Enwebu

At: David Michael  
Ysgrifennydd  
Cynllun Pensiwn Staff LIGC

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 24 Mawrth 2020 ynghylch penodi ymddiriedolwr a enwebwyd gan yr aelodau.

Hoffwn gael fy enwebu i'w ddewis yn ymddiriedolwr a enwebwyd gan yr aelodau o Gynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Rwy'n cadarnhau fy mod i:

- yn 18 oed neu'n hŷn
- yn aelod wedi ymddeol o'r Cynllun
- heb fy nghael yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd neu dwyll ac nid wyf yn fethdalwr heb ei ryddhau;
- heb fy ngwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni;
- erioed wedi cael fy ngwahardd rhag gweithredu fel Ymddiriedolwr

Enw: ..... Llofnod: .....

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn: .....

**Rhaid dychwelyd y ffurflen hon at David Michael erbyn 24 Rhagfyr 2020. Gellir anfon y ffurflen trwy'r post neu gellir ei chyflwyno trwy e-bost ([david.michael@llyfrgell.cymru](mailto:david.michael@llyfrgell.cymru)) neu trwy ffacs (01970 615709). Ni fydd ffurflenni a dderbynnir ar ôl diwedd busnes ar 24 Rhagfyr 2020 yn cael eu hystyried.**

# I'W CWBLHAU GAN ENWEBEDIGION SYDD YN AELODAU WEDI YMDDEOL

## Ffurflen Cefnogwr

Mae'r adran hon yn wirfoddol

### Enw'r enwebai:

Cefnogir fy enwebiad gan:		
Enw		Llofnod
1		
2		
3		

Rhaid i bob llofnodwr fod yn aelodau wedi ymddeol o Gynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru.